



Comisiwn
Cydraddoldeb a
Hawliau Dynol

Equality and
Human Rights
Commission

Adroddiad ymchwil rhif 130

Ymchwiliad i aflonyddu hiliol: arolwg o brifysgolion

Hydref 2019

IFF Research

© 2019 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

ISBN 978-1-84206-808-3

Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno casgliadau o arolwg o aflonyddu myfyrwyr a staff yn hiliol mewn Sefydliadau Addysg Uwch (SAU) a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Gweinyddodd IFF Research yr arolwg ar ein rhan. Diben yr arolwg oedd archwilio pa mor effeithiol yw ymateb SAU i'r mater o aflonyddu hiliol.

Roedd yr arolwg yn rhan o'n hymchwiliad i aflonyddu hiliol mewn prifysgolion ym Mhrydain, oedd yn cynnwys galwad am dystiolaeth gan staff a myfyrwyr. Edrychodd yr ymchwiliad ar effeithiolrwydd dulliau SAU o ddelio gydag aflonyddu hiliol. Fe lansiom ymchwiliad mewn ymateb i dystiolaeth gynyddol o aflonyddu ar staff a myfyrwyr o leiafrifoedd ethnig yn y sector addysg uwch.

Cwblhaodd cyfanswm o 141 o'r 159 SAU a dderbyniodd gyllid cyhoeddus yn y flwyddyn academaidd 2018/19 yr arolwg – cyfradd ymateb o 89%.

Ar y cyfan, roedd SAU wedi derbyn nifer fechan iawn o gwynion ffurfiol o aflonyddu hiliol gan staff a myfyrwyr. Er gwaethaf hyn, roedd nifer yn hyderus bod pob digwyddiad yn cael ei adrodd. Heb fawr o syndod, roedd y rhai na dderbyniodd unrhyw gwynion oll yn dueddol i fod yn fwy hyderus am hyn. Teimlai'r SAU bod ganddynt systemau, polisïau ac arferion cadarn parthed aflonyddu hiliol. Yn gyffredinol, roeddynt yn teimlo eu bod wedi delio â chwynion o aflonyddu hiliol mewn modd priodol.

Fodd bynnag, nid oedd nifer o SAU eraill yn hyderus bod pob achos o aflonyddu hiliol wedi ei adrodd iddynt. Nid oedd y rhan fwyaf yn monitro cwynion anffurfiol. Teimlai ymatebwyr mai'r prif rwystrau i adrodd oedd ofn ôl-effeithiau negyddol i'r achwynydd a diffyg hyder y byddai'r SAU yn gweithredu. Roedd yr SAU hefyd yn cydnabod ei bod yn aml yn cymryd dipyn o amser i ddatrys cwynion.

Mae'r adrannau canlynol yn archwilio'r canfyddiadau allweddol mewn mwy o fanylder.

Pa mor gyffredin yw aflonyddu hiliol a adroddir yn erbyn staff a myfyrwyr SAU?

- Derbyniodd sefydliadau gyfartaledd o 2.3 o gwynion o aflonyddu hiliol gan staff a 3.6 o gwynion o aflonyddu hiliol gan fyfyrwyr rhwng cychwyn blwyddyn academaidd 2015/16 ac Ionawr 2019. Mae hyn yn cyfateb i oddeutu 360 o gwynion gan staff a 560 gan fyfyrwyr. Mae prifysgolion ym Mhrydain yn cyflogi 670,000 o staff ac yn addysgu 2.3 miliwn o fyfyrwyr. Ar draws Prydain Fawr, yn seiliedig ar ystadegau poblogaeth 2017/18, roedd oddeutu un cwyn ar gyfer pob 1,850 o weithwyr prifysgol ac un cwyn ar gyfer pob 4,100 o fyfyrwyr ers cychwyn blwyddyn academaidd 2015/16.
- O'r cwynion a adroddwyd, y math mwyaf cyffredin o aflonyddu hiliol ar gyfer staff a myfyrwyr oedd 'profi sylwadau ac/neu ymddygiadau sarhaus'.
- Fel yr amlygwyd uchod, roedd barhau'r SAU yn amrywio o ran pa mor hyderus oeddynt fod pob achos o aflonyddu hiliol wedi ei adrodd iddynt. Ar y cyfan, roeddynt yn llai hyderus yr adroddwyd pob digwyddiad yn effeithio ar fyfyrwyr (teimlai 43% yn hyderus) na phob digwyddiad yn effeithio ar staff (56%).

Sut mae SAU yn delio â chwynion o aflonyddu hiliol?

- Cynigiodd yr amrywiol SAU nifer o wahanol 'lwybrau i unioni' ar gyfer myfyrwyr a staff. Dywedodd bron i bob un ei bod yn bosibl gwneud cwyn ffurfiol ar lefel sefydliadol, corfforaethol. Roedd y mwyafrif hefyd yn darparu prosesau cwynion ar lefel is-sefydliadol, fel o fewn ysgol neu trwy drydydd parti fel undeb myfyrwyr neu undeb llafur.

- Roedd yn llai cyffredin i SAU gynnig gwasanaeth cymodi/cyfryngu, er bod y rhan fwyaf yn dal i wneud hynny. Roedd sefydliadau yn llai tebygol o ddarparu hyn i fyfyrwyr (roedd 60% o SAU yn ei gynnig) o gymharu â staff (86%). Roedd yr SAU hefyd yn dueddol o beidio cynnig dulliau penodol o adrodd ffurfiau llai amlwg o aflonyddu¹ neu gyfleoedd i wneud cwyn yn ddiennw. Roeddynt yn dueddol o gynnig naill ai llwybr ffurfiol neu rwydweithiau cefnogaeth anffurfiol nad oeddynt yn gallu adrodd neu gofnodi digwyddiadau yn ffurfiol. Yn aml roedd diffyg sianel cyfryngwr ar gyfer cofnodion achosion o aflonyddu hiliol heb ysgogi grym llawn y broses ffurfiol.
- Dywedodd sefydliadau bod ganddynt nifer o wahanol bolisïau ar waith i ddarparu arweiniad ar aflonyddu hiliol, gyda'r mwyaf cyffredin yn god ymddygiad oedd yn cwmpasu hil yn benodol. Roeddynt hefyd yn cynnig cefnogaeth i ddiodefwrwr aflonyddu hiliol.
- Mewn ymatebion arolwg penagored, dywedodd sefydliadau eu bod yn hyderus yng nghadernid eu polisïau. Fodd bynnag, roedd ymwybyddiaeth o'r polisïau ymysg staff a myfyrwyr yn gyfyngedig.
- Yn aml roedd prifysgolion yn cymryd amser hir i ddatrys achosion – mewn rhai achosion dros flwyddyn. Roedd datrys cwynion a wnaed gan fyfyrwyr yn gyffredinol yn broses gyflymach na datrys cwynion gan staff.

¹ Mae ffurfiau llai amlwg o aflonyddu yn cynnwys sylwadau ac/neu ymddygiadau sarhaus cynnil, fel eithrio pobl o weithgareddau. Gelwir y rhain weithiau yn 'fân ymosoddd'.

Sut ellir gwella polisïau a gweithdrefnau aflonyddu hiliol SAU?

- Y meysydd blaenoriaeth mwyaf cyffredin ar gyfer delio ag aflonyddu hiliol oedd codi ymwybyddiaeth o ymddygiad derbyniol, meithrin ymddiriedaeth gyda staff/myfyrwyr o leiafrifoedd ethnig a sicrhau bod y rhai oedd wedi dioddef aflonyddu yn teimlo wedi eu grymuso i adrodd amdano.
- Roedd tua phedwar o bob pump SAU yn casglu data ar y 'diwylliant o gynhwysiant' (neu ddiffyg cynhwysiant) ymysg myfyrwyr a staff – hynny yw, i ba raddau y teimlai pobl o leiafrifoedd ethnig eu bod wedi eu cynnwys ac yn ymgysylltu mewn bywyd prifysgol. Er enghraifft, cyflawnodd nifer o SAU ymchwil, fel arolygon staff, i gael gwell dealltwriaeth o faterion hil yn eu sefydliad. Diben hyn oedd hysbysu a gwella polisïau. Dywedodd cyfran debyg eu bod yn defnyddio data a gasglwyd o gwynion a gofnodwyd i wella arferion. Mewn ymatebion testun rhydd, roedd SAU yn aml yn crybwyll bod eu cais i, neu eu cytundeb gyda, y Siarter Cydraddoldeb Hil² yn ganolog i sicrhau bod eu polisïau yn unol ag arfer gorau.
- Roedd SAU yn ystyried codi ymwybyddiaeth a hyfforddi staff i fod yn ffyrdd pwysig i atal aflonyddu hiliol. Roeddynt yn gweld llai o angen i newid eu polisïau cyfredol. Roedd rhai SAU yn edrych ar ddatblygu prosesau ar gyfer ar gyfer adrodd am aflonyddu hiliol yn ddienw.

² Mae'r Siarter Cydraddoldeb Hil (REC) yn cael ei redeg gan Advance HE gyda'r nod o wella cynrychiolaeth, cynnydd a llwyddiant staff a myfyrwyr lleiafrifoedd ethnig mewn addysg uwch.

I grynhoi, roedd rhai SAU yn cydnabod ei bod yn debygol y byddai yna fwlch mawr rhwng y nifer o achosion a adroddwyd o aflonyddu hiliol a'r gwir ddigwyddiadau. Roedd nifer yn hyderus ynghylch eu dulliau o ddelio â chwynion ond yn teimlo bod angen gwneud mwy i godi ymwybyddiaeth o, a meithrin ymddiriedaeth yn, yr amrywiol ffurfiau o unioniad oedd ar gael.